

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANBEDR DYFFRYN CLWYD A GYNHALIWDYD AR DDYDD LLUN 20 MAI 2019 YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y PENTREF, LLANBEDR DYFFRYN CLWYD AM 7.30 Y.H.

YN BRESENNOL: Y Cyngorwyr Lyn Evans (Cadeirydd), Bob Barton, Jackie Bird, Dave Ritchie, Nick Smith, Ken Tams, Gruff Jones, Rhian Jones a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cyng Tim Baker.

2: DATGANIADAU O DDIDDORDEB

A. Y Cyng Rhian Jones - eitemau agenda 12 a 15B isod.

B. Y Cyng Jackie Bird – eitem agenda 11 isod.

3. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER TYMOR 2019/2020.

Etholwyd y Cyng Lyn Evans gan yr Aelodau yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer tymor 2019/2020.

4. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER TYMOR 2019/2020.

Etholwyd y Cyng Tim Baker gan yr Aelodau yn Is-Gadeirydd y Cyngor ar gyfer tymor 2019/2020.

5. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR.

Derbyniodd yr aelodau gofnodion cyfarfod 1af Ebrill 2019 fel rhai cywir, a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd.

6. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Taliad Adran 106 gan Williams Homes/Taliad Cymdeithas Tai Pennaf – er na fydd y taliad hwn yn cael ei ysgogi nes bod y 10fed tŷ wedi'i feddiannu, bydd y Cyng Nick Smith yn paratoi llythyr i'w anfon i Gyngor Sir Ddinbych i nodi ein bod yn dymuno gwario'r arian yma i greu "Man Gwyrdd Cymunedol".

B. Monitro Cyflymder – Adroddodd Gruff Jones ar sut mae pethau'n mynd rhagddynt, ystadegau goryrru, llythrau rhybudd a'r prynhawn a dreuliodd yng nghwmni Heddlu Gogledd Cymru. Torrwyd allweddi er mwyn i'r grŵp allu mynd i mewn i Neuadd y Pentref lle mae Dave Ritchie wedi rhoi blwch y gellir ei gloi i storio'r ddau wn cyflymder.

C. Cylchgrawn Link – Mae Lyn Evans wedi cael 5 eitem ar gyfer Rhifyn yr Haf. Fel arbrawf unwaith ac am byth, bydd y rhifyn hwn yn cael ei bostio i'r 386 o dai sydd ar y Gofrestr Etholiadol. Bydd stampiau ac amlenni'n costio oddeutu £240. Unwaith eto, anogir derbynwyr i gofrestru i dderbyn y Link yn electronig neu beidio'i dderbyn o gwbl.

7. ADOLYGIAD O GWRS HYFFORDDI UN LLAIS CYMRU A GYNHALIWDYD AR 4 EBRILL 2019.

Barn unfrydol y Pwyllgor oedd bod trefniadau Bob Barton yn effeithiol iawn, ond fod yr hyfforddiant yn cynnwys gormod o theori a dim digon o gyngor ymarferol. Gellid cyflwyno nifer o'r modiwlau sylfaenol yn effeithiol mewn un sesiwn. Cynigiodd Bob Barton y gallai'r modiwl sylfaenol ddod yn orfodol yn fuan. Awgrymodd Rhian Jones na ddylem fynychu cyrsiau eraill tan hynny, oherwydd y gost. Cytunodd pob Aelod heblaw Bob Barton.

8. CYFARFOD GRŴP CYSWLLT 8 EBRILL 2019.

Roedd Cynrychiolwyr o'r Eglwys, Neuadd y Pentref, yr Ysgol, Elusennau Llanbedr, Sioe'r

Pentref a'r Cyngor Cymuned yn bresennol, dan gadeiryddiaeth Tim Baker. Cytunodd y grŵp y byddent yn cydweithio'n fwy clos i ddatblygu cyfranogiad y Gymuned i bentref Llanbedr.

9/10. GWEITHGAREDDAU NADOLIG AR GYFER GRWP IAU OEDRAN LLANBEDR.

Penderfynwyd cynnwys pob grŵp oedran yn noson achlysur y Goleuadau Nadolig, yn ogystal â darparu lluniaeth ac adloniant yn Neuadd y Pentref ar gyfer pawb yn y Gymuned. Bydd syniadau ar gyfer adloniant i'w trafod yn y cyfarfod nesaf.

11. LLWYBR Y FYNWENT AC ARDAL WERDD Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL.

Mewn ymateb i e-bost gan berchnogion y cae rhwng yr Eglwys a Lon Cae Glas, mynegodd Jackie Bird nifer o bryderon gan drigolion Lon Cae Glas:-

A: Roedd llawer o'r trigolion wedi cwyno fod y coed wedi cael eu torri. Ond gan nad oedd unrhyw Orchymyn Cadw Coed arnynt, a'u bod ar eiddo preifat, mae'n rhy hwyr i wneud dim am y peth erbyn hyn.

B. Ardal werdd y CDLI – mae ei gosod mor agos at y ffordd yn hollol annerbyniol oherwydd llygredd sŵn a cherbydau, diogelwch i'r gymuned a'r traffig sy'n mynd heibio. Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar eu bod wedi cynnig gwneud llwybr, ond ni wnaed unrhyw gynnig ffurfiol i dalu amdano, ac nid oes unrhyw gais cynllunio ffurfiol wedi ei wneud hyd yn hyn. Bydd y Clerc yn llunio llythyr i ddatgan pryderon y Pwyllgor.

12. TŶ GWYDR YSGOL LLANBEDR.

Mewn ymateb i e-bost gan Ysgol Llanbedr, cytunodd y Pwyllgor i dalu'r diffyg o £270 tuag at gostau adeiladu'r tŷ gwydr a'r £84 i brynu offer garddio. Penderfynodd yr Aelodau i'r Clerc anfon sic am £354 a hefyd iddo ofyn am gadarnhad fod yr arian wedi ei wario ar yr eitemau penodol hyn.

13. CYMORTH GRANT CLWB PÊL DROED LLANGYNHAFAL.

Cytunodd y Pwyllgor i'r cais, sef rhoi £300 i gyd-fynd â chyfraniad Cyngor Cymuned Llangynhafal, ac y byddai'r Clerc yn holi a fyddai'r Clwb yn chwarae gemau yn Llanbedr petai safle addas ar gael.

14. CYLLID.

A. Cyfrifon Banc:-

1. Cyfrif Cyfredol y Nat West - £20,669.62.

2. Cyfrif Cadw'r Nat West - £9,340.87.

B. Derbynebau:-

1. Presept cyntaf 2019/2020 - £5,000.00.

2. Cyngor Cymuned Llanferres at gostau Un Llais Cymru - £33.75.

3. Cyngor Cymuned Llanfair Dyffryn Clwyd at gostau Un Llais Cymru - £13.75.

4. Cyngor Cymuned Cyffylliog at gostau Un Llais Cymru - £240.00.

5. Cyngor Cymuned Llanrhaeadr at gostau Un Llais Cymru - £120.00.

C. Taliadau awdurdodedig:-

1. Dave Ritchie – prynu dau wn mesur cyflymder - £196.90.

2. Brenda Jones – cyfieithu cofnodion mis Ebrill - £40.00.

3. Cwrs Un Llais Cymru 28 Mawrth 2019 (Bob Barton) - £55.00.

4. Cwrs Hyfforddi Un Llais Cymru 4 Ebrill 2019 - £427.35.

5. Cwrs Hyfforddi Un Llais Cymru 8 Ebrill 2019 - £419.70.

6. Zurich – Premiwm yswiriant blynyddol - £257.60.

7. Lyn Evans – torri 8 allwedd, amlenni C5 a defnyddiau ar gyfer Gardd Lechi Maes Derwen - £91.19.

8. Clwb Pêl Droed Llangynhafal – Cais cymorth grant - £300.00.
9. Ysgol Llanbedr – Costau cymorth grant ar gyfer y tŷ gwydr a garddio - £354.00.
10. Cyfeillion Ysgol Llanbedr – Cymorth grant tuag at gostau'r Astro turf - £2,000.00.

15. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Cais cynllunio: 16/2019/0280 – Addasu ac ymestyn annedd er mwyn darparu lle byw ychwanegol yn y to yn 2 Tunnel Bungalow, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Rhuthun – gan y gohiriwyd cyfarfod mis Mai'r Cyngor Cymuned, roedd y cais eisoes wedi ei wrthod gan Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych. Mae hyn yn cadarnhau barn Nick Smith am y cais cynllunio.

B. Ceisiadau cynllunio 16/2019/0285/PF a 16/2019/0286/LB – Adeiladu estyniad, darparu diangfeydd tân a gwneud newidiadau mewnol yn Nhafarn y Griffin, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Rhuthun – am fod y cais hwn wedi cyrraedd yn hwyr, bydd yn cael ei drafod yng nghyfarfod mis nesaf.

16. AHNE.

Y brif thema a ddaeth i'r amlwg oedd eu hymgais i gael achrediad "Llygredd Golau" a'r cynnydd mewn incwm twristiaid y gaeaf i'r ardal fyddai'n dilyn. Mae'r AHNE yn gofyn am gymorth gan Gynghorau Sir a Chynghorau Cymuned yr ardal, a phenderfynwyd gwahodd cynrychiolydd yr AHNE i ddod i drafod â'r Pwyllgor.

17. GOHEBIAETH.

A. E-bost ynghylch ardal gemau aml-ddefnydd Llanbedr gan Sian Jones – mae'r Pwyllgor eisoes wedi cytuno i roi £2,000 fel llif arian cychwynnol tra bod cais grant ar gyfer taliadau rhestredig Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddo.

B. Llythyr gan Ron Bell, Gofalwr Neuadd y Pentref – dyletswydd y Pwyllgor yw hwyluso datblygiadau a digwyddiadau yn y gymuned. Mae'r Cyngor Cymuned eisoes yn talu £500 am ddefnyddio'r Neuadd 11 gwaith y flwyddyn (2 awr x £8 = £16 = £176) sy'n gadael £324 ar gyfer unrhyw achlys cymunedol arall – megis achlysuron yr Ysgol gynradd, cyfarfodydd Rhieni ac Athrawon ayb.

Mae'r pwyllgor yn fodlon cyfrannu mwy, ond rhaid mynd i'r afael â'r pryderon canlynol:-

- 1: Pwy sydd berchen Neuadd y Pentref?
2. A oes unrhyw gyfamodau sy'n gwahardd defnyddio'r safle gan unrhyw ddefnyddiwr heblaw'r Gymuned?
3. Beth yw'r trefniadau prydlesu a pha mor hir yw'r brydles?
4. Rydym angen gweld cyfrifon y Neuadd ar gyfer y pum mlynedd diwethaf.
5. Os yw'r Cyngor am roi mwy o arian, dylai aelod o'r Cyngor Cymuned fod ar Bwyllgor y Neuadd.

Y Clerc i ysgrifennu at Mr Bell i gyfleu barn y Cyngor.

18. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Ni dderbyniwyd unrhyw fater gan y Cynghorydd Sir.

19. MATERION BRYD DAN ADRAN 100B (4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Dave Ritchie – Mesurau tawelu traffig – bydd yn mynd ar drywydd hyn erbyn y cyfarfod nesaf.

B. Gofynnodd Lyn Evans i'r Clerc ysgrifennu at Gwyn Williams, 5 Maes Derwen i ddiolch iddo am dorri a symud y goeden oedd wedi disgyn yn y fynwent yn ddi-dâl. Mae Mr

Williams wedi cynnig strimio ambell i ymyl ffordd flêr, ac o gwmpas yr arosfannau bws a'r "Goeden Heddwch" yn y pentref, gan godi tâl petrol yn unig.

C. Dywedodd Lyn Evans y bydd Mr & Mrs Duckworth, Tan-y-Fenlli yn atgyweirio pen draw'r Ardd Lechi.

20. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Dydd Llun 3 Mehefin 2019 yn Neuadd y Pentref, Llanbedr Dyffryn Clwyd am 7.30 y.h.